



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Polisi Defnydd Derbyniol

Awdur	Richard Thorne, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifiadurol
Lleoliad y Polisi	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Information Security
Cymeradwywyd gan:	Grŵp Diogelu a Llywodraethu Gwybodaeth 13.04.21 Tîm Rheoli'r Coleg 20.05.21

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe ac i unigolion eraill â mynediad i adnoddau a systemau'r Coleg.

I fod yn glir, mae'r polisi hwn yn ymwneud yn benodol â staff a myfyrwyr sy'n cyrchu adnoddau a systemau megis TEAMS trwy ddefnyddio eu manylion mewngofnodi.

1. Egwyddorion Cyffredinol

Caniateir ac anogir staff a dysgwyr i ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ddiwallu anghenion, nodau a gweithgareddau'r Coleg. Rhaid defnyddio'r Rhyngrwyd mewn modd sy'n cydymffurfio â safonau ymddygiad y coleg, ac o fewn cyfrifoldebau swydd yr unigolyn neu unrhyw weithgareddau addysgu eraill. [Cod Ymddygiad Myfyrwyr](#)

- Ni ddylid defnyddio cyfrifon ebost, Teams, Office 365, cyfleusterau cyfathrebu/sgwrsio, cyfrifon a gwefannau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer unrhyw beth nad yw'n gysylltiedig â'r Coleg.
- Efallai y byddwn yn monitro eich defnydd o'r rhyngrwyd, cyfrifon ebost, Teams, Office 365 at ddibenion monitro diogelwch a/neu reoli rhwydweithiau. Mae'n bosib hefyd y byddwn yn cyfyngu ar ddefnydd unigolion o adnoddau o'r fath.
- Bydd y Coleg yn monitro pob achos o ddsbarthu gwybodaeth drwy'r Rhyngrwyd, gwasanaethau cyfrifiadurol, Office 365, Teams, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw systemau cyfathrebu/sgwrsio eraill. Ni ddylech ddisgwyl cael eich trin â phreifatrwydd, ac mae gan y coleg yr hawl i bennu addasrwydd unrhyw wybodaeth.
- Mae defnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol yn dod o dan gyfraith y DU, ac mi fyddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw achos o gamddefnydd mewn modd priodol.

2. Ni chaiff ddefnyddwyr:

Y Rhyngrwyd

- Ymweld â gwefannau Rhyngrwyd sy'n cynnwys deunyddiau anwedus, atgas, annymunol neu amhriodol.
- Creu neu bostio sylwadau, cynigion neu ddeunyddiau anwedus neu ymosodol ar y Rhyngrwyd neu dros Ebost, Teams, systemau negesu/sgwrsio neu unrhyw gyfleuster cyfathrebu arall. Mae hyn hefyd yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol. [Defnydd Proffesiynol o Gyfryngau Cymdeithasol yng Ngholeg Gwyr Abertawe](#)

Ebost

- Anfon e-byst neu negeseuon (er budd personol) nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau'r coleg.
- Anfon neu dderbyn unrhyw ddefnydd di-nod, difriol neu unrhyw ddeunydd sydd yn debygol o gythruddo, aflonyddu neu ddychryn rhywun arall.
- Cyflwyno barn bersonol fel barn y Coleg.

Cyfrinachedd

- Uwchlwytho, lawrlwytho neu drosglwyddo meddalwedd fasnachol, ffeiliau neu ddeunyddiau hawlfraint sy'n perthyn i bartion y tu allan i'r coleg, neu i'r coleg ei hun.
- Cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: wybodaeth ariannol, syniadau busnes/cynhyrchion newydd, strategaethau a chynlluniau marchnata, cronfeydd data a'r wybodaeth sy'n cael ei gadw ynddynt, rhestrau cwsmeriaid, gwybodaeth am gynnyrch technegol, codau ffynhonnell meddalwedd cyfrifiaduron, codau mynediad cyfrifiaduron/rhwydweithau, a pherthnasau busnes.
- Anfon negeseuon cyfrinachol heb amgryptiad perthnasol.

Diogelwch

- Lawrlwytho unrhyw feddalwedd neu ffeiliau electronig heb weithredu mesurau gwrthfirws sydd wedi'u cymeradwyo gan yr adran gwasanaethau cyfrifiadurol.
- Ymyrryd yn fwriadol â gweithrediad arferol y rhwydwaith, gan gynnwys lluosogi firysau cyfrifiadurol ac achosi traffig mewn perthynas â'r rhwydwaith, gan rwystro eraill rhag ei defnyddio.
- Dargyfeirio neu hepgor mesurau neu rwystrau diogelwch TG y coleg.
- Archwilio, newid, neu ddefnyddio ffeiliau, cynnyrch, e-byst, dulliau cyfathrebu rhywun arall, neu ddefnyddio enw defnyddiwr rhywun arall nad oes gennych hawl i'w ddefnyddio.
- Rhannu manylion cyfrif neu gyfrineiriau sy'n ymwneud â systemau'r coleg.
- Cyrchu systemau gan ddefnyddio manylion rhywun arall. Gadael unrhyw offer heb eu goruchwylio a heb eu cloi tra'ch bod wedi mewngonodi i unrhyw gyfrif defnyddiwr arall.

Cyffredinol

- Diweddarau, newid neu osod unrhyw feddalwedd ar system heb ganiatâd yr adran gwasanaethau cyfrifiadurol.
- Defnyddio unrhyw weithredoedd amhriodol arall o nodwyd gan yr adran gwasanaethau cyfrifiadurol.
- Gwastraffu amser ar bethau nad ydynt yn ymwneud â'r coleg.

3. Yr Iaith Cymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ymdrechu i ddelio ag anghenion siaradwyr Cymraeg â'u cefnogi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg.

Gall methu â chydymffurfio â Pholisi Defnydd Teg y Coleg arwain at gamau disgyblu.

Mae'r Coleg hefyd yn cadw'r hawl i riportio unrhyw droseddau anghyfreithlon i'r awdurdodau priodol.

Perchennog y Ddogfen a Chymeradwyaeth

Rheolwr y Gwasanaethau Cyfrifiadurol yw perchennog y ddogfen ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y ddogfen bolisi hon yn cael ei hadolygu yn unol â gofynion Cymal 5.1.2 y llawlyfr.

Mae copi cyfredol o'r ddogfen hon ar gael i bob aelod o staff ar fewnwyd y gorfforaeth. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a gellir ei rhyddhau i bartion allanol, perthnasol.

Cymeradwywyd y polisi diogelwch gan y Grŵp Diogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth ar 13/04/2021 ac fe'i cyhoeddir ar sail fersiynau rheoledig ar ôl cael eu llofnodi gan y Dirprwy Bennaeth.

Llofnod:

Dyddiad: 13.04.21



Cofnod o newidiadau

Mater	Disgrifiad o'r Newid	Cymeradwywyd gan	Dyddiad Diwygio
1	Rhifyn cychwynnol	Grŵp Monitro ISO 27001	30.08.2017
2	Ychwanegu dulliau cyfathrebu pellach gan gynnwys Teams, Office 365, sgwrsio a negeseua	Grŵp Diogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth	13.04.2021